

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol gynhaliwyd 5 Rhagfyr 2016 am 7.30yh yn Hen Ysgol y Ferwig

Presennol:

Cyng. Ann Stokoe (*Cadeirydd*)
Cyng. Dilwyn Jenkins
Cyng. Lyn Jones
Cyng. Des Davies
Mrs Hildreth Owen (*Clerc*)

Cyng. Llinos Price (*Is-Gadeirydd*) (*gadael 9.05yh*)
Cyng. Huw Jones
Cyng. Eurig Lloyd
Cyng. Islwyn Iago

- 1. Croeso'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd, y Cyng. Ann Stokoe, bawb i gyfarfod mis Rhagfyr, ac aethpwyd yn syth ymlaen i drafod materion ar yr agenda.
- 2. Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Y Cynghorydd Auriol Williams
- 3. Cofnodion y cyfarfod cyffredinol blaenorol:** Cynigiwyd gan y Cyng. Dilwyn Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng. Llinos Price bod cofnodion mis Tachwedd yn gywir.
- 4. Datgelu buddiannau personol:** Dim
- 5. Materion yn codi:**
 - (a) Gweithredoedd ac Ymddiriedolwyr Ystafell Berkley:** Mae'r Cyngor yn dal i aros am ymateb y cyfreithwyr.
 - (b) Diffibriliwr i Mwnt:** Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â Mr Paul Bolland, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, yn datgan siom aelodau'r Cyngor am eu hymateb negyddol i gyfrannu at gostau prynu'r cyfarpar.
 - (c) Cinio Nadolig i drigolion y gymuned dros 70:** Mae'r cinio i'w gynnal ar ddydd Mercher, 14 Rhagfyr yng Nghlwb Golff Aberteifi am 12.30yp.
 - (d) Gordyfiant coed ger Patch:** Mae swyddog Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ymddiheuro am yr oedi ac wedi cytuno gwneud y gwaith cynted â phosib.
- 6. Ceisiadau am Gymorth Ariannol**

I'w penderfynu ym mis Ebrill a mis Hydref, yn unol ag adrannau 137 a 142 (CAB) o'r Ddeddf Ariannol 1996.

Hen Ysgol y Ferwig	I'w drafod ym mis Ionawr 2017
PTA Ysgol Gymunedol Penyparc	£150
Ysgol Feithrin Penyparc	£100
Papur Bro "Y Gambo"	£75
Ysgol Gynradd Gymunedol Penyparc	£50
Shelter Cymru	Dim
Elusen Amaethyddol, "Royal Agricultural Benevolent Institution"	£100
Age Cymru Ceredigion	£50
Cyfeillion Amgueddfa Ceredigion	£50
<i>Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn</i>	I'w drafod ym mis Ebrill, 2017

(*Enwau wedi eu hitaleiddio = cyfrifon wedi eu danfon i mewn gyda'r cais*)
- 7. Cynllunio:** Nid oedd ceisiadau i'w trafod yn ystod y mis.
- 8. Materion ariannol:**

Biliau wedi eu talu:

Mrs Hildreth Owen (Cyflog y Clerc, Tachwedd 2016)	101574	£302.72
Mrs Hildreth Owen (Costau'r Clerc, Tachwedd 2016)	101575	£52.80
Cyllid a Thollau EM: Treth Incwm y Clerc (Tachwedd 2016)	101576	£75.60
Clwb Ffermwyr Ifainc Penyparc (6 mis o lanhau'r ystafell newid)	101577	£440.64
Y Cyng. Ann Stokoe (Lwfans y Cadeirydd am 6 mis)	101578	£150.00
Society of Local Council Clerks (Aelodaeth am 2017)	101579	£93.00
C.Ff.I. Penyparc (ran o gost trwsio diffodydd tân Ystafell Berkley)	101580	£38.40
Swallow Office Supplies (2 gatrissen i'r argraffydd)	101581	£55.18

Cynigiwyd gan y Cyng. Lyn Jones ac eiliwyd gan y Cyng. Llinos Price bod y biliau uchod yn cael eu talu.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Materion ariannol eraill:

Derbyniadau:

Pwyllgor Ystafell Berkley (Hanner cost gwaith trydanol yn y Neuadd) £325.25
Mrs Hildreth Owen (ad-daliad costau'r banc) £15.00

Cyllideb y flwyddyn ariannol 2017-18: Dosberthir copi i bob cynghorydd yng nghyfarfod Rhagfyr. Trafodir yr awgrymiadau yng nghyfarfod y Cyngor ar 9 Ionawr 2017.

Mae angen awdurdod y Cyngor i wahodd Archwilydd Mewnol i graffu cyfrifon y Cyngor am y flwyddyn ariannol 2016-17.

Cynigiwyd gan y Cyng. Huw Jones ac eiliwyd gan y Cyng. Eurig Lloyd bod y Cyngor yn gwahodd Mr Ken Griffiths i wasanaethu fel Archwilydd Mewnol y Cyngor am y flwyddyn ariannol 2016-17.

9. Gohebiaeth

171	Cyngor Sir Ceredigion (Uwch Swyddog Cynllunio [Gorfodaeth])	Panteg, Penyparc: Ymateb i gais y Cyngor i archwilio'r annedd. Bydd swyddog o'r awdurdod yn ymweld â'r safle i wneud asesiad cychwynnol a yw'r rheolau cynllunio wedi eu torri ai peidio.	Mae'r ddogfen wedi ei blaenyrru i'r Cynghorwyr ar 23/11/16.
172	Cyngor Sir Ceredigion (Adran Gynllunio)	A160756 (Llain-y-Mwnt, Ferwig): Cyflwynwyd apêl yn erbyn penderfyniad y Cyngor Sir i wrthod caniatâd cynllunio.	Mae'r ddogfen wedi ei blaenyrru i'r Cynghorwyr ar 23/11/16.
173	Cyngor Sir Ceredigion (Adran Briffyrdd)	Cydnabyddiaeth i gais y Cyngor i ledaenu'r ffordd i draeth y Mwnt.	Bydd peiriannydd ffyrdd y Cyngor Sir yn archwilio'r ffordd ac yna anfon awgrymiadau ymlaen mewn da bryd. Mae'r ddogfen wedi ei blaenyrru i'r Cynghorwyr ar 23/11/16.
174	Cyngor Sir Ceredigion (Adran Gynllunio)	A160909 (Ffynnon Grog, Mwnt): Mae'r adran wedi ymateb gan ddweud bod y fynedfa i Ffynnon Grog a'r manau pasio ar y ffordd i draeth y Mwnt yn ddigonol.	Mae'r ddogfen wedi ei blaenyrru i'r Cynghorwyr ar 23/11/16.
175	Eisteddfod Genedlaethol Cymru Ynys Môn 2017	Cais am gymorth ariannol.	I'w drafod yng nghyfarfod Ebrill 2017.
176	Ysgol Feithrin Penyparc	Cyfarchiad o ddiolch am y rhodd ariannol.	Gofynnwyd i'r Clerc anfon neges o ddiolch i blant Ysgol Feithrin Penyparc am eu carden hyfryd o ddiolch am gyfraniad y Cyngor.
177	Llywodraeth Cymru	Ymateb ynglŷn â chyfyngu cyflymdra ger Ysgol Gynradd Penyparc	Mae'r gwaith a ddisgwylir ei gyflawni yn ystod y flwyddyn gyfredol wedi ei ohirio hyd y flwyddyn ariannol 2017-18. Mae'r aelodau'n siomedig iawn o ymateb Llywodraeth Cymru am mai Ysgol Penyparc yw'r unig ysgol yng Ngheredigion heb arwyddion chyfyngu cyflymdra. Y Clerc i anfon atynt unwaith eto a hefyd anfon copi at Elin Jones AC.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

10. Materion Eraill:

- (a) **Sbwriel wedi ei adael yn ymyl y bwlch gyferbyn â Cwrt Brongwyn:** Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â'r Cyngor Sir ynglŷn â chlirio'r sbwriel.
- (b) **Adroddiad yn y Teifiseid:** Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â'r Teifiseid i achwyn am y ffaith ei bod wedi defnyddio V (Verwig) ac nid F (Ferwig) mewn adroddiad yn y papur yn ddiweddar.
- (c) **Dail ar ffyrdd y gymuned:** Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda'r Cyngor Sir yn gofyn iddynt glirio'r dail.
- (d) **Man-aros ger Tŷ'r Ysgol, Tremain:** Mae arwydd wedi ei leoli yn y man-aros yn dweud "For Future Use". Gofynnwyd i'r Clerc hel gwybodaeth am fodolaeth yr arwydd dirgel hwn.
- (e) **Silindr Nwy wedi ei adael ger Capel Ffynnonbedr:** Gofynnwyd i'r Clerc wneud ymholiadau ynglŷn â'i fodolaeth.

11. Dyddiad y Cyfarfod Cyffredinol nesaf: 9 Ionawr 2017 (YB)

Cyfarfodydd 2017

6 Chwefror (F) 6 Mawrth (YB) 3 Ebrill (F) 8 Mai (YB) 5 Mehefin (F) 3 Gorffennaf (YB)
4 Medi (F) 2 Hydref (YB) 6 Tachwedd (F) 4 Rhagfyr (YB)

Dynoda: F = Hen Ysgol y Ferwig YB = Ystafell Berkley CB = Cyfarfod Blynyddol

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Minutes of the Ordinary Meeting held on 5 December 2016 at 7.30pm at Hen Ysgol y Ferwig

Present

Cllr Ann Stokoe (*Chair*)

Cllr Dilwyn Jenkins

Cllr Lyn Jones

Cllr Des Davies

Mrs Hildreth Owen (*Clerk*)

Cllr Llinos Price (*Vice-Chair*) (*left at 9.05pm*)

Cllr Huw Jones

Cllr Eurig Lloyd

Cllr Islwyn Iago

1. Chairperson's welcome.

The Chairperson, Cllr Ann Stokoe, welcomed everyone to the December meeting, and went on to discuss matters on the agenda.

2. Apologies for absence: Cllr Auriol Williams

3. Minutes of the previous meeting.

It was proposed by Cllr Dilwyn Jenkins and seconded by Cllr Llinos Price that the November minutes were correct.

4. Declaration of personal interests: None.

5. Matters arising:

- (a) **Trustees and Deeds of Ystafell Berkley:** The Council is still awaiting a response from the solicitors.
- (b) **Proposed Defibrillator for Mwnt:** The Clerk was asked to contact Mr Paul Bolland, National Trust, expressing the Council's disappointment at the authority's decision not to contribute towards the cost of supplying a defibrillator at Mwnt.
- (c) **The Over 70 Christmas Dinner for community residents:** The dinner is to be held on Wednesday, 14 December at the Golf Club at 12.30pm.
- (d) **Overgrowth of trees at Patch:** An officer of Natural Resources Wales has apologised for the delay in cutting back the trees and confirmed that the work will be done shortly.

6. Requests for financial support.

To be discussed in April and October in accordance with Sections 137 and 142 (CAB) of the Finance Act 1996.

Hen Ysgol y Ferwig	To be discussed in January 2017
PTA Ysgol Gymunedol Penyparc	£150
Ysgol Feithrin Penyparc	£100
Papur Bro "Y Gambo" (local Welsh newspaper)	£75
Ysgol Gynradd Gymunedol Penyparc	£50
Shelter Cymru	Nil
Royal Agricultural Benevolent Institution	£100
Age Cymru Ceredigion	£50
Friends of Ceredigion Museum	£50
<i>Eisteddfod Genedlaethol Sir Fôn</i>	To be discussed in January 2017

(Names in italics = accounts forwarded with applications)

7. Planning: There were no matters to be discussed.

8. Financial Matters.

Bills paid:

Clerk's salary (November 2016)	101574	£302.72
Clerk's expenses (November 2016)	101575	£52.80
HMRC: PAYE (November 2016)	101576	£75.60
Penyparc YFC (Cleaning of changing rooms for 6 months)	101577	£440.64
Cllr Ann Stokoe (Chairman's Allowance for 6 months)	101578	£150.00
Society of Local Council Clerks (Membership for 2017)	101579	£93.00
Penyparc YFC (Part of cost of servicing fire extinguisher)	101580	£38.40
Swallow Office Supplies (2 Ink cartridges for printer)	101581	£55.18

It was proposed by Cllr Lyn Jones and seconded by Cllr Llinos Price that the above bills be paid.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Other financial matters:

Receipts:

Pwyllgor Ystafell Berkley (Half the cost of electrical work carried out at Ystafell Berkley.) £325.25
 Mrs Hildreth Owen (repayment of bank charges) £15.00

Budget for financial year 2017-18: Copy given to all councillors at the December meeting, to be discussed at the meeting in January 2017.

The Council's authority is sought to invite the services of an Internal Auditor to scrutinise the Council's 2016-17 accounts.

It was proposed by Cllr Huw Jones and seconded by Cllr Eurig Lloyd that the council invites Mr Ken Griffiths to serve as internal auditor for the financial year 2016-17.

9. Correspondence:

171	Ceredigion County Council (Head of Lifestyle Services)	Panteg, Penyparc: Response to Council's request that a member of the authority investigates whether or not planning permission has been granted for the work being carried out at this residence.	E-mail forwarded to Councillors on 23/11/16.
172	Ceredigion County Council (Head of Lifestyle Services)	A160756 (Llain-y-Mwnt, Ferwig): An appeal has been lodged against the County Council's decision to refuse planning permission.	E-mail forwarded to Councillors on 23/11/16.
173	Ceredigion County Council (Highways Department)	Response to the Council's request to widen the road down to Mwnt beach.	Engineers have been instructed to assess the condition of the road and make appropriate recommendations. E-mail forwarded to Councillors on 23/11/16
174	Ceredigion County Council (Planning Department)	A160909 (Ffynnon Grog, Mwnt): The department has responded stating that the entrance to Ffynnon Grog and passing places to Mwnt beach are sufficient.	E-mail forwarded to Councillors on 23/11/16.
175	Anglesey National Eisteddfod of Wales 2017	Request for financial aid.	To be discussed at the meeting in April 2017.
176	Ysgol Feithrin Penyparc	Card of thanks for the donation from the Council	The Clerk was requested to send a message of thanks to the children at Ysgol Feithrin Penyparc for the lovely card sent to thank the Council for its donation.
177	Welsh Government	Response received regarding speed limit alongside Penyparc school.	The work that was originally meant to be carried out over 4 years has unfortunately had to be reviewed and the part-time 20mph speed limit outside Penyparc Junior School will not be implemented until the next financial year. Council members are very disappointed by this response, as Penyparc Junior School is the only school in Ceredigion that does not have speed limit signs. The Clerk has been requested to contact the Welsh Government regarding this, and to forward a copy of the correspondence to Elin Jones.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

10. Other Matters:

- (a) **Rubbish deposited near Brongwyn Court, Penyparc:** The Clerk was asked to inform the County Council.
- (b) **Report in the "Tivy-Side" newspaper:** The Clerk was asked to inform the editor of the paper that the spelling of "Verwig" is incorrect when using "V" as in "Verwig" rather than "F".
- (c) **Wet leaves on the highways:** The Clerk was asked to inform the County Council of this potential hazard.
- (d) **Lay-by near the old Tremain Schoolhouse:** A mysterious sign depicting "For Future Use" is located at this point. The Clerk was asked to enquire with the County Council as to its existence.
- (e) **Gas cylinder left on verge near Ffynnonbedr Chapel:** The Clerk was asked to make enquiries as to its existence.

11. Date of next meeting: 9 January, 2017 (YB)

Dates of Council Meetings for 2017:

6 February (F) 6 March (YB) 3 April (F) 8 May (YB) 5 June (F) 3 July (YB)
4 September (F) 2 October (YB) 6 November (F) 4 D (YB)

Denotes: F = Ferwig Old School. YB = Ystafell Berkley. AGM = Annual General Meeting